Gweinyddiaeth Cyfiawnder

Ministry of Justice

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Gweithredu Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid

**Mae gwella'r bartneriaeth rhwng gwasanaethau datganoledig a heb eu datganoli er mwyn cyflenwi cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru yn flaenoriaeth a rennir gan Lywodraethau'r DU a Chymru. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn nodi ymrwymiad ar y cyd i archwilio'r argymhellion a wneir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.**

| Maes Thematig | Argymhelliad (carreg filltir) | Cam(au) gweithredu yn cynnwys | Amserlen ddiweddaraf | Y diweddaraf |
|---|---|---|---|---|
| **Atal** | Ceisio cadw cyllid a neulltuir yn benodol ar gyfer gweithgarwch y Tîm Troseddau Ieuenctid ar gyfer gweithgarwch atal a dargyfeirio cyn llys trwy'r Gronfa Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol | Ar ôl cyhoeddi adroddiad gwerthuso'r Grant Plant a Chymunedau ym mis Mai 2019, canfod cyllid wedi'i sicrhau er mwyn helpu i gyflawni uchelgeisiau atal, ymyrraeth gynnar a dargyfeirio. | Tymor canolig (2yr 2020/21 – 2021/22) | Bydd y Gronfa Hyrwyddo Ymgysylltu Cadarnhaol yn aros yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau hyd y gellir rhag-weld. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r fframwaith canlyniadau ar gyfer y Grŵp. Mae hyn yn rhoi cyfle i adlewyrchu'r ystod lawn o weithgarwch Timau Troseddau Ieuenctid i helpu i sicrhau cyllid parhaus. Mae'r Grant yn cael ei thrafod ar hyn o bryd. Mae'r diweddariadau a ddarparwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-2021 yn dangos bod awdurdodau lleol yn parhau i flaenoriaethu gweithgarwch Hyrwyddo Ymgysylltu Cadarnhaol. |
| | Datblygu dull cenedlaethol ar gyfer gweithgarwch atal wedi'i dargedu y Tîm Troseddau Ieuenctid, a sicrhau ei fod yn cael ei ymgorffori mewn model fframwaith ar y cyd ar gyfer Cymru | • Mapio'r mesurau presennol ynghylch dulliau casglu data, gofynion adrodd ac ymyriadau wedi'u targedu a gyflenwir yn lleol ac yn genedlaethol, gan gynnwys gwaith atal mewn cyfiawnder ieuenctid, gweithgarwch gwaith ieuenctid a gwasanaethau awdurdod lleol, i bennu arfer da wrth gyflenwi canlyniadau lles.<br>• Ystyried a fyddai datganiad safbwynt ledled y system ar gyfer Cymru ynghylch atal mewn cyfiawnder ieuenctid yn briodol. | Tymor canolig (2yr 2020/21 – 2021/22) | Bydd y Grŵp Dargyfeirio Cyn Llys yn mapio gwybodaeth sy'n ymwneud â chyllid. Ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, bydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Atal yn cael ei sefydlu i ystyried a ellir symleiddio arferion adrodd ond gan gynnal dealltwriaeth o weithgarwch atal a phwysigrwydd cyllid parhaus i'w gefnogi.<br><br>Mae cynllun braenaru yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i sefydlu beth mae achos atal yn ei olygu i wasanaeth troseddau ieuenctid. Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau bydd y ffrwd waith yn ystyried datganiad safbwynt ledled system Cymru gan ystyried gweithgarwch atal ehangach. |
| | Monitro gweithgarwch atal yn well er mwyn dangos yr effaith a gwella'r sail dystiolaeth | Archwilio'r potensial ar gyfer defnyddio deunyddiau presennol Dyfed Powys i ddarparu tystiolaeth well, fwy cyson o weithgarwch ac effeithiolwydd. | Tymor canolig (2yr 2020/21 – 2021/22) | Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi comisiynu Tîm Troseddau Ieuenctid Ceredigion i ddatblygu'r elfen hon o'r ffrwd waith fel cynllun braenaru. |
| | Dylai profiadau niweidiol yn ystod plentyndod gael eu nodi pan ddaw plant i sylw'r heddlu a dylai'r Tîm Troseddau Ieuenctid gael gwybod. | Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod i'w cyflwyno i'r drafodaeth ehangach ynghylch y strategaeth atal, ac ailfframio sut y caiff profiadau niweidiol yn ystod plentyndod eu cynnwys, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr argymhelliad sydd eisoes yno. | Amherthnasol | DIM CAMAU PELLACH - cytunwyd y bydd y rhaglen Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd yn bwrw ymlaen â'r camau hyn yn hytrach na'r rhaglen Glasbrint.<br><br>Mae'r rhaglen Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd yn parhau yn ei blwyddyn bontio. Mae'r gweithgarwch yn bennaf yn ardaloedd yr Heddluoedd ond mae gwaith hefyd yn ymwneud â chyfiawnder troseddol. yn fwy felly mewn perthynas â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a beth fydd natur y pontio. Er bod y gwaith hwn yn parhau, nid yw'n flaenoriaeth o dan y ffrwd waith atal. |
| | Cysoni dulliau adrodd/amodau ariannu ar draws cyfraniadau Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu at weithgarwch atal a dargyfeirio cyn llys er mwyn lleihau biwrocratiaeth. | Amherthnasol – gweler y diweddariad | Amherthnasol | Er mwyn osgoi dyblygu, mae'r gweithgaredd hwn yn cael ei weithredu gyda'r argymhellion dargyfeirio cyn llys. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dargyfeirio cyn llys** | Cefnogi dulliau presennol o ddargyfeirio cyn llys drwy'r cynlluniau Bureau a Divert (Triage gynt) | • Parhau i gefnogi ac ariannu gwaith dargyfeirio cyn llys i leihau nifer y bobl ifanc sy'n mynd i'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf.<br>• Mae cadw rheolaeth dros gyllid a dylanwad yn hanfodol ar gyfer gwireddu amcanion Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yn y system gyfiawnder ehangach. | Yn parhau | Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi gweithgarwch Timau Troseddau Ieuenctid drwy gyllid grant y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Grant Plant a Chymunedau. |
| | Datblygu arferion dargyfeirio | • Gweithio gyda'r heddluoedd a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i amlygu, datblygu a rhannu arferion da a sicrhau dull cyson ledled Cymru.<br>• Archwilio a yw atebion cymunedol/camau adfer ieuenctid yn cael eu cyfleu'n gyson gan yr Heddlu i Dimau Troseddau Ieuenctid.<br>• Gweithio gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Chomisiynydd Plant Cymru i sefydlu hawliau plant pan roddir cam adfer, gan gynnwys dulliau diogelu cyfreithlon a'r cyngor a roddir i blant.<br>• Archwilio'r potensial ar gyfer prosiect dargyfeirio canabis, yn unol ag argymhellion Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. | Tymor canolig (2yr 2020/21 – 2021/22) | Mae prosiect ymchwil gan Brifysgol De Cymru (Llais y Plentyn mewn Achosion Cyn Llys) ar y gweill a fydd yn llywio ein dull o ymdrin â'r argymhelliad hwn. |
| | Cysoni dulliau adrodd /amodau ariannu ar draws cyfraniadau Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu at weithgarwch atal a dargyfeirio cyn llys er mwyn lleihau biwrocratiaeth. | • Dadansoddi cyfraniadau at atal a dargyfeirio cyn llys o gynlluniau cyfiawnder ieuenctid blynyddol y Tîm Troseddau Ieuenctid a chwilio am gyfleoedd i lywio sut y gellid bwrw ymlaen â chysoni a chyllid cyfun. | Tymor canolig (2yr 2020/21 – 2021/22) | Mae gwaith yn mynd rhagddo i wneud gwaith ymchwil ac i lunio adroddiad ar ffynonellau cyllid a gweithgarwch y maent yn eu cefnogi. Mae gorgyffwrdd rhwng y gweithgaredd hwn a rhai o'r argymhellion atal. |
| **Y gymuned** | Gweithio gyda'r heddlu i sicrhau bod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn cael eu nodi pan ddaw plant i sylw'r heddlu a bod y Timau Troseddau Troseddau Ifanc yn cael gwybod. | Amherthnasol – gweler y diweddariad | Amherthnasol | Dilëwyd y cam gweithredu hwn oherwydd dyblygu gyda meysydd gwaith eraill y Glasbrint (Atal). |
| | Rhoi Rheoli Achosion Uwch ar waith yn genedlaethol ar gyfer plant cymhleth a risg uchel sydd dan oruchwyliaeth Timau Troseddau Ieuenctid | • Parhau i ddatblygu, cefnogi a gwerthuso'r cynllun peilot Rheoli Achosion Uwch mewn pedwar Tîm Troseddau Ieuenctid ledled y De (Caerdydd, Cwm Taf, Bro Morgannwg a'r timau oedd yn rhan o Fae'r Gorllewin yn flaenorol), hyd at fis Mawrth 2020. Mae'r cynllun peilot wedi dod i ben bellach ac mae'n rhan o'r gwaith o gyflwyno Rheoli Achosion Uwch yn genedlaethol.<br>• Cefnogi a datblygu gwaith yn yr ardaloedd prawf (Blaenau Gwent Caerffili, Sir Gaerfyrddin a Sir y Fflint) i ymgorffori ymarfer Rheoli Achosion Uwch.<br>• Cyflwyno hyfforddiant a lywir gan drawma i bob Tîm Troseddau Ieuenctid yng Nghymru, gan gynnwys datblygu deunyddiau i helpu'r sefydlu.<br>• Datblygu cymwysterau cytûn: ymwybyddiaeth sylfaenol lefel 1 o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, dealltwriaeth lefel 2 o'r Model Gwella ar ôl Trawma neu'r ddamcaniaeth sy'n sail i ymarfer a lywir gan drawma ac ymarferydd Rheoli Achosion Uwch lefel 3. | Tymor hir (3yrs + 2022/2023) | Mae'r gwaith ar y peilot Rheoli Achosion Uwch a safleoedd prawf blaenorol wedi'i gwblhau. Darparwyd hyfforddiant i bob Dim Troseddau Ieuenctid yng Nghymru. Cynhyrchwyd model arfaethedig ar gyfer darparu ymarfer a lywir gan drawma a Rheoli Achosion Uwch ac mae trafodaethau'n parhau gyda Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid Cymru ac i fireinio a llunio gofynion gwasanaeth.<br>Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn parhau i ymgysylltu â Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ac awdurdod Iechyd Cwm Taf ar y cynnig FACTS i'r sector cyfiawnder ieuenctid. Mae'r ffrwd waith hefyd yn edrych ar sut y gellir datblygu gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid cyson a pharhaus a lywir gan drawma.<br><br>Mae'r gweithgarwch i gyflwyno Rheoli Achosion Uwch yn cael ei ail-lunio i adlewyrchu'r gwaith cynllunio a gweithredu sydd ei angen.<br><br>1. Mapio mentrau presennol a arweinir gan bolisi sy'n canolbwyntio ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac arfer a lywir gan drawma.<br>2. Datblygu llwybr ar gyfer cyswllt seicoleg arbenigol ac ymgynghori rhwng iechyd a Thimau Troseddau Ieuenctid.<br>3. Dylunio a gweithredu Rheoli Achosion Uwch fel model cyflawni cenedlaethol cynaliadwy.<br>4. Ceisio cysondeb rhwng ymarfer a dulliau a ddefnyddir yn y gymuned a sicrhau bod plant yn cael dilyniant.<br>5. Cysylltu â Trauma Stress Wales ynghylch adnoddau a chymorth i'r sector.<br>6. Mae'r gwerthusiad o brosiect Rheoli Achosion Uwch De Cymru wedi'i gwblhau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Bangor a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2021.<br>7. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi comisiynu modiwl ar ymarfer a lywir gan drawma i ddisodli cymhwyster Agored (gweler isod), a fydd ar gael i'r sector cyfiawnder ieuenctid o fis Ebrill 2021 ymlaen. |
| | Cynorthwyo'r sector cyfiawnder ieuenctid gydag adnoddau, hyfforddiant a chymwysterau i gyflenwi ymarfer wedi'i lywio gan drawma. | • Parhau i ddarparu hyfforddiant ar ymarfer a lywir gan drawma er mwyn gwella gwybodaeth ymarferwyr neu'r broses wella wedi'i llywio gan drawma yn y gymuned ac yn y ddalfa. | Tymor canolig (2yr 2020/21 – 2021/22) | Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi comisiynu'r gwaith o ddatblygu Gwobr Ymarfer Effeithiol a lywir gan drawma fel rhan o'i fframwaith cymwysterau Ymarfer Effeithiol. Bydd hwn ar gael drwy'r Sefydliad Cyfiawnder Ieuenctid sy'n cyflwyno dyfarniadau ymarfer effeithiol eraill. Mae hyn yn disodli cymwysterau Agored. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cychwyn cynllun braenaru tymor byr gyda Thîm Troseddau Ieuenctid Cwm Taf i ddatblygu adnoddau ymarfer ar gyfer y sector cyfiawnder ieuenctid a disgwylir i hwn gael ei gwblhau fis Mehefin 2021. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cysoni'r trefniadau gyda Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. | • Tîm Troseddu a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r tîm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a rhanddeiliaid perthnasol eraill i archwilio sut y gellir bwrw ymlaen i wneud hyn. | | Bydd y gwaith sy'n dod i'r amlwg o'r maes thematig hwn yn cael ei ystyried yn unol â Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. |
| **Ailsefydlu a phontio** | Mabwysiadu cynnig y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer ailsefydlu adeiladol | Ystyried sut i fabwysiadu cynnig y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, gan ystyried arweiniad cenedlaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac Adolygiad Farmer. | Tymor hir<br>(3yrs + 2022/2023) | • Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid Cymru, arweinwyr Timau Troseddau Ieuenctid rhanbarthol a ddynodwyd, a'r Gwasanaeth Dalfeydd Ieuenctid, i archwilio 'ailsefydlu adeiladol' a'r gweithgarwch sydd ei angen i'w gefnogi.<br>• Mae'r ymarfer presennol yn cael ei fapio ar sail archwiliad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid o Safonau Cenedlaethol. |
| | Datblygu gwaith gyda theuluoedd, gan gynnwys paratoi'r teulu ar gyfer pan fydd y plentyn yn cael ei ryddhau. | Tîm Troseddu a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynigion i integreiddio'r argymhelliad hwn â'r ffrwd waith cefnogi troseddwyr (oedolion) a'u teuluoedd yn y Fframwaith i Gefnogi Newid Positif ar gyfer y Rheini sydd mewn Risg o Droseddu yng Nghymru 2018-2023. | Tymor canolig<br>(2yr 2020/21 – 2021/22) | Fel uchod, mae gwaith ymgysylltu yn digwydd gyda rhanddeiliaid i geisio nodi pa fath o gymorth i deuluoedd sydd ei angen ac mae hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r ffrwd waith teuluoedd o dan Framework to Support Positive Change for Those at Risk of Offending in Wales 2018-2023. |
| | Ailedrych ar gynigion i gyflwyno partneriaethau ailintegreiddio ac ailsefydlu mewn deddfwriaeth. | • Archwilio ac ymgynghori â phartneriaid ailsefydlu ynghylch partneriaethau ailintegreiddio ac ailsefydlu.<br>• Adolygu cynigion (i gyflwyno deddfwriaeth ar bartneriaethau ailintegreiddio ac ailsefydlu) o'r cynllun cyflawni ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf, y Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar y cyd i Gymru a gyhoeddwyd yn 2014. | Tymor canolig<br>(2yr 2020/21 – 2021/22) | Mae safbwyntiau'n cael eu casglu a bydd casgliadau'n cael eu hadrodd ym mis Mai 2021. |
| | Datblygu dulliau wedi'u llywio gan drawma i'r rhai sy'n pontio i wasanaethau oedolion | Gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i nodi ymarfer a lywir gan drawma, fel rhan o'r gwaith ehangach o adnewyddu canllawiau ar bontio i Gymru. | Tymor canolig<br>(2yr 2020/21 – 2021/22) | Mae'r ddogfen Pontio o Wasanaethau Ieuenctid i Wasanaethau Oedolion wedi'i diweddaru i gynnwys canllawiau ar sut i wneud trosglwyddiadau mewn modd a lywir gan drawma. Mae'r canllawiau diwygiedig wedi'u cyhoeddi ar wefan gov.uk: https://https://www.gov.uk/government/publications/youth-to-adult-transition-principles-and-guidance-for-wales |
| **Y ddalfa** | Pob plentyn sy'n byw yng Nghymru sy'n cael dedfryd o garchar neu eu cadw yn y ddalfa i gael ei roi mewn unedau bach yng Nghymru, ar sail model therapiwtig a lywir gan drawma, gan ddarparu gwasanaeth prif ganolfan a lloerennau i'r gymuned ar gyfer achosion cymhleth a risg uchel, dan oruchwyliaeth y Timau Troseddau Ieuenctid, a phan fydd yn ailsefydlu | • Dadansoddi'r gofyniad a'r angen a ragwelir ar gyfer Cymru.<br>• Nodi opsiynau posibl i ddiwallu angen ac ymchwilio i ddull o gomisiynu, lleoli, gweithredu, darparu gwasanaethau arbenigol, monitro a goruchwylio ar gyfer cyfleuster diogel.<br>• Sicrhau cyllid a chymeradwyaeth i'w gweithredu. | Canolig-Hir | Mae Llywodraeth Cymru wedi rhannu ei hegwyddorion ar gyfer darparu gwasanaethau i blant Cymru mewn sefydliadau diogel a bydd yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i archwilio opsiynau i gyflawni'r weledigaeth hon. Yn y tymor byr ac yn rhyngddibynnol ar y Glasbrint, mae gwaith ar y gweill i ddatblygu'r trefniadau presennol ar gyfer gofal diogel ac i'w cysoni ag egwyddorion y Glasbrint, gan gynnwys:<br>• Gwasanaethau seicoleg newydd i'w cyflwyno yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc i rai dan 18 oed o fis Ebrill 2021<br>• Cyflwyno goruchwyliaeth glir a systemig o wasanaethau integredig a lywir gan drawma o'r dechrau i'r diwedd i blant sydd yn y ddalfa yng Nghymru.<br>• Cynnwys egwyddorion y Glasbrint o fewn y broses benderfynu allweddol ar gyfer cynllunio gwasanaethau yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc i rai dan 18 oed ar ôl Rhagfyr 2022. |
| | Asesu'r ddarpariaeth ddiogel yn y ddalfa i ddiwallu anghenion plant sydd angen pob math o ofal diogel: gofal iechyd meddwl cleifion mewnol, dadwenwyno ar gyfer camddefnyddio sylweddau neu leoliad ar orchymyn lles diogel a chan gynnwys gwelyau cyfiawnder. | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Goruchwylio systemau** | Ystyried sut mae model cenedlaethol ar gyfer gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid cenedlaethol a lywir gan drawma yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc yng Nghymru. | • Pennu manylion y model, gan gynnwys cyllid, pwerau, cyfrifoldebau a llywodraethiant er mwyn cryfhau'r trefniadau partneriaeth presennol a chynnal gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid a noddir ar y cyd ac sydd yng nghydberchnogaeth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.<br>• Adolygu opsiynau ar gyfer setiau data'r dyfodol, a dulliau asesu i gynorthwyo system sydd wedi'i llywio gan drawma.<br>• Ymgysylltu ag Arolygiaethau i sicrhau bod y gofynion arolygu'n cyd-fynd â'r model cyflenwi system gyfan sydd wedi'i lywio gan drawma | | • Mae swyddogaethau statudol yn cael eu mapio i ddarparu model llinell sylfaen sy'n bodoli eisoes.<br>• Mae opsiynau ar gyfer setiau data a gofynion arolygu yn cael eu harchwilio yn unol â gweithgarwch ar draws y Glasbrint.<br>• Cwblhau asesiad effaith integredig. |